Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU A PHRIF GWNSTABL DYFED-POWYS

# Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gyfer 2018/19

***DIOGELU EIN CYMUNEDAU GYDA'N GILYDD***

# Cynnwys



**Rhagair y Cadeirydd** 2

**Rôl y Cyd-bwyllgor Archwilio** 3

**Aelodaeth** 4

**Rhaglen waith ar gyfer 2018/19** 5

**Blaenoriaethau ar gyfer 2019/20** 6

# Rhagair y Cadeirydd



Mae Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn annibynnol o'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'n cynnwys aelodau sy'n medru cyflwyno amrediad o sgiliau a phrofiad i'r bwrdd. Gan hynny, mae mewn sefyllfa unigryw i roi sicrwydd a chyngor ar gyflwyno llywodraethu da o fewn y ddau sefydliad.

Ar hyn o bryd, mae gan y Pwyllgor bedwar aelod, ond mae potensial ar gyfer penodi aelod arall. Er waethaf ymdrechion sylweddol yn ystod y flwyddyn i ddod o hyd i aelod arall, pedwar aelod sydd o hyd. Y gobaith yw y ceir pum aelod unwaith eto yn 2019/20. Diolchaf i aelodau'r Pwyllgor am eu hymrwymiad wrth ymgymryd â'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer gweithrediad effeithiol y Pwyllgor. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod gwaith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, a gynorthwyir gan y Pwyllgor, yn wynebu gofynion cynyddol a gwir gyfyngiadau ar adnoddau. Mae'n galonogol iawn fod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn mynd i gyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor heblaw bod ymrwymiadau eraill yn eu hatal rhag bod yno.

Ar wahân i gyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor, roedd cyfle eto i ystyried y cyfrifon blynyddol yn fanylach, gyda'r Prif Swyddogion Ariannol yn cynnig dadansoddi a gwybodaeth gefndir. Eleni, ar ôl cwblhau Datganiad Rheoli cyntaf yr heddlu, cymerwyd y cyfle yn ystod yr un cyfarfod i dderbyn cyflwyniad ar y ddogfen honno. Mae'n galonogol fod y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2017/18 wedi'u cynhyrchu cyn diwedd Gorffennaf 2018. Mae hyn yn dangos ymdrechion sylweddol y ddau dîm cyllid i'w cau'n gynt flwyddyn y gynnar.

Eto ym mis Tachwedd 2018, gwahoddwyd y Pwyllgor i gyfarfod lle y rhoddodd y Prif Gwnstabl gyflwyniad a oedd yn nodi'r pwysau a wynebir gan y gwasanaeth. Dilynwyd hyn gan gyflwyniadau am y pwysau ariannol a wynebir ar gyfer pennu praesept 2019/20.

Digwyddiad allweddol arall yw'r diwrnod hyfforddi blynyddol sy'n caniatáu i aelodau'r pedwar Cyd-bwyllgor Archwilio yng Nghymru i dderbyn diweddariadau mewn perthynas â phlismona ac sy'n rhoi cyfle i ystyried arfer da. Eleni, tro Dyfed-Powys ydoedd i reoli'r digwyddiad, a hoffwn ddiolch i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r diwrnod hwn, a oedd yn ddefnyddiol dros ben.

Yn olaf, ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i swyddogion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, ynghyd â'r Archwilwyr Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru a chynrychiolwyr Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM), sydd wedi cefnogi ei waith yn ystod y flwyddyn.

*Malcolm MacDonald*

Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio

# Rôl y Cyd-bwyllgor Archwilio



**Mae Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol Gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n darparu ffocws annibynnol, lefel uwch ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n tanategu safonau ariannol a llywodraethu da. Mae'r annibyniaeth hon yn bwysig oherwydd bod y pwyllgor, gan hynny, mewn sefyllfa unigryw o ran ei allu i roi sicrwydd a chyngor.**

Pwrpas y Cyd-bwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG) am ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, ac adrodd ariannol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol mewn grym.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi'i sefydlu yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, a gyhoeddwyd dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac yn unol ag arweiniad Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).



Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio'n crynhoi swyddogaethau craidd y pwyllgor a'r protocolau sydd mewn grym i'w alluogi i weithredu'n annibynnol, yn gadarn ac yn effeithiol.

**Tabl: Presenoldeb Aelodau yn 2018/19**

| Aelod | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | % y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Alasdair Kenwright | 4 | 3 | 75% |
| Malcolm MacDonald | 4 | 4 | 100% |
| Martin Evans | 4 | 3 | 75% |
| Andre Morgan | 4 | 4 | 100% |

**Rhaid bod gan Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ddealltwriaeth o'r materion ariannol, risg a rheoli, a llywodraethu corfforaethol sy'n wynebu'r PG a'r CHTh. Rhaid bod ganddynt allu i herio, cwestiynu, holi, a gofyn am eglurhad gan y CHTh a'r PG pan fod angen.**

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor Archwilio yn ystod 2018/19 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Malcolm MacDonald | Cadeirydd |
| Alasdair Kenwright | Aelod |
| Martin Evans | Aelod |
| Andre Morgan | Aelod |

Mae pob aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi pasio proses wirio'r heddlu ac wedi cwblhau ffurflen datgan diddordeb.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol, mae Aelodau o'r Cyd-bwyllgor Archwilio hefyd yn cwrdd yn breifat, heb y CHTh na'r PG, gydag archwilwyr mewnol ac allanol ddwywaith y flwyddyn. Hefyd, mae'n arferol i'r Cadeirydd drafod materion sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â llywodraethu gyda Swyddogion Statudol.

Cynhaliwyd seminar ym mis Mehefin 2018 rhwng yr Aelodau, y Prif Swyddog Ariannol, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r arweinwyr cyllid o fewn yr Heddlu er mwyn ystyried yr holl fanylion o fewn y Datganiad o Gyfrifon, a oedd ar ffurf ddrafft ar y pryd. Ystyriwyd bod yr ymarfer hwn yn ddefnyddiol iawn o ran adolygu'r cyfrifon a dogfennau cysylltiedig, gyda thrafodaethau gwerthfawr iawn yn cael eu cynnal.

Gwahoddwyd yr Aelodau i Uwch-gynhadledd Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd 2018, a roddodd drosolwg i randdeiliaid o'r heriau ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn y rhaglen waith y mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n ymgymryd ag ef yn ei chyd-destun ac ystyriwyd ei bod yn fuddiol i bawb.

Er mwyn cefnogi datblygiad Aelodau, cynhaliwyd diwrnod datblygu Cymru gyfan ar gyfer Aelodau Cydbwyllgorau Archwilio ym mis Chwefror 2019. Rhoddodd hyn gyfle i Aelodau ddysgu sut mae Cydbwyllgorau Archwilio eraill yn gweithredu a rhannu arfer gorau a syniadau ar gyfer datblygu. Roedd y rhain yn cynnwys diweddariad ynglŷn â'r materion strategol diweddaraf yn y maes plismona, yn ogystal â'r materion archwilio a llywodraethu diweddaraf. Yn ogystal, cafwyd arweiniad proffesiynol a diweddariadau gan CIPFA, ac ystyriwyd meysydd risg allweddol a nodwyd mewn adroddiadau AHGTAEM diweddar.

Mae'r CHTh a'r PG, Prif Swyddog Ariannol a Phennaeth Staff a Monitro'r CHTh, a Chyfarwyddwr Cyllid y PG hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae swyddogion eraill yn bresennol er mwyn rhoi gwybodaeth am archwiliadau, rhaglenni gwaith, neu unrhyw faterion eraill yn ôl yr angen.

> *'Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol mewn grym yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran eu defnydd o adnoddau'* Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017-18 a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018

**Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Archwilio 4 gwaith yn 2018/19. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau, argymhellion ac arsylwadau gan yr archwilwyr mewnol TIAA, Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiadau asesu PEEL AHGTAEM a gweithgarwch archwilio arall. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan swyddogion o SCHTh a'r Heddlu ar feysydd busnes allweddol er mwyn iddynt ffurfio barn annibynnol a rhoi sicrwydd annibynnol i'r CHTh a'r PG mewn perthynas â rheoliadau llywodraethu ac ariannol o fewn y Corfforaethau Undyn.**

**Roedd y rhaglen waith yn cynnwys y canlynol:**

**Adrodd Ariannol:** Adolygodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r datganiad o gyfrifon blynyddol ar gyfer 2017/18, ac ystyrion nhw'r Polisïau Cyfrifyddu, y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a'r Strategaeth Gyfalaf.

**Rheoliadau Mewnol:** Adolygodd y Cyd-bwyllgor Archwilio Fframwaith Sicrwydd Rheoliadau Heddlu Dyfed-Powys, yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd gan TIAA.

**Archwilio Mewnol:** Goruchwyliodd y Cyd-bwyllgor Archwilio waith a gyflawnwyd gan archwilwyr mewnol (TIAA), gan gynnwys adolygiadau o wasanaethau sydd wedi'u comisiynu, cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), trefniadau rhanbarthol ar gyfer rheoli fflyd a rheoli eiddo. Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r cynllun archwilio mewnol blynyddol ar gyfer 2019/20 hefyd.

**AHGTAEM:** Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddiweddariadau ar weithgarwch archwilio AHGTAEM yn ystod y flwyddyn hefyd, gyda chynrychiolwyr o AHGTAEM yn bresennol yn ein cyfarfod fis Medi.

**Llywodraethu:** Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio gofnodion cyfarfodydd chwarterol y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cael ei fynychu gan gynrychiolwyr y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, ac aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae'r grŵp hwn yn cynnal ac yn adolygu effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, ac yn ystyried y ffactorau mewnol ac allanol sy'n effeithio ar lywodraethu corfforaethol. Cymeradwyodd aelodau o'r Cyd-bwyllgor Archwilio y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer y CHTh a'r PG. Yn ogystal, cyflwynodd y Cyd-bwyllgor Archwilio sylwadau mewn perthynas â diwygio'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.


**Rheoli Risg:** Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi olrhain cynnydd a wnaed ar gyfer ymgorffori rheoli risg o fewn y gwasanaeth, ac wedi ystyried sut y mae'r risgiau corfforaethol yn cael eu rheoli. Bellach, mae adroddiadau'n canolbwyntio ar y 5 prif risg sefydliadol, y risgiau hynny sydd wedi newid yn sylweddol yn ystod y chwarter, ac unrhyw risgiau newydd. Roedd yn dda gan y Cyd-bwyllgor Archwilio weld y cynnydd sylweddol a wnaed gan y sefydliad mewn perthynas â pharhad busnes. Mae dal gwaith i'w wneud mewn perthynas ag integreiddio rheoli risg i mewn i drefniadau llywodraethu a chynllunio busnes a fydd yn parhau i gael ei fonitro gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn i ddod. Gyda'r datblygiadau o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd, bydd y pwyllgor yn monitro hyn yn agos. Mae'n dda adrodd hefyd bod cynnydd sylweddol a gwelliannau wedi digwydd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â phlant yn cael archwiliad meddygol fforensig.

### Mae blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor yn 2019/20 yn cynnwys:

- Adolygu cylch gorchwyl a ffordd o weithredu'r Cyd-bwyllgor Archwilio ochr yn ochr â Chyd-bwyllgorau Archwilio Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill yng Nghymru;

- Ystyried a chynghori ynghylch trefniadau llywodraethu corfforaethol, sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd er mwyn bodloni'r arweinyddiaeth. Bydd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei adolygu er mwyn adlewyrchu'r strwythurau llywodraethu y mae'r cyfuniad newydd o gorfforaethau undyn eisiau gweld mewn grym yn ystod eu cyfnod mewn grym;





- Goruchwylio integreiddio rheoli risg i mewn i drefniadau llywodraethu a chynllunio busnes;

- Canolbwyntio ar ganfyddiadau adolygiadau AHGTAEM ac adolygiadau allanol eraill i'r graddau y maent yn ymwneud â materion rheoli mewnol a llywodraethu;

- Canolbwyntio ar drefniadau rheoli gwybodaeth a chydymffurfiaeth â gofynion statudol;

- Canolbwyntio ar ganfyddiadau archwiliadau mewnol sydd wedi arwain at sicrwydd cyfyngedig yn cael ei roi i faes busnes; ac

- Asesu'r gallu i weithredu mewn cyfnodau parhaus o gyfyngiadau ariannol.

**Cysylltu â'r CHTh**

**Ffôn: 01267 226440**

**E-bost: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk**

**SCHTh, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF**

**Cysylltu â'r Heddlu**

**Ffôn: 01267 222020 / 101**

**Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF**